



EITEM AGENDA: 1

Teitl y papur:	Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS): Adroddiad Blynnyddol 2016-2017
Diben y papur:	Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion a gafodd eu hystyried gan Bwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017.
Camau gweithredu sy'n ofynnol gan y Bwrdd:	Dim angen penderfyniad. Gwahoddir y Bwrdd i drafod yr adroddiad.
Swyddog sy'n cyflwyno'r papur:	James Turner, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth yr SCS
Papur wedi'i baratoi gan:	Evelyn Edwards
Cyhoeddi:	Dylai'r papur hwn gael ei gyhoeddi.
Dyddiad cyflwyno i'r Ysgrifenyddiaeth:	6 Gorffennaf, 2017

1. Cefndir

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017. Cyfarfu'r Bwrdd 6 gwaith yn ystod y cyfnod adrodd, a hynny ar y dyddiadau a ganlyn:-

- 27 Mai 2016
- 24 Mehefin 2016
- 30 Medi 2016 (cynhaliwyd y cyfarfod yn swyddfa Merthyr)
- 9 Rhagfyr 2016
- 17 Chwefror 2017
- 31 Mawrth 2017

1.2 Dyma fanylion presenoldeb aelodau'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd yn y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef:-

ENW	NIFER Y CYFARFODYDD A FYNICHWYD
James Turner (Cadeirydd), Cyfarwyddwr Gweithredol	6
*Derek Jones, Ysgrifennydd Parhaol	4 o 4
**Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol	2 o 2
Elan Closs, Stephens Cyfarwyddwr Anweithredol	5
Adrian Webb, Cyfarwyddwr Anweithredol	5
James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	5
Peter Kennedy, Cyfarwyddwr AD	6
Ann Keane, Cyfarwyddwr Anweithredol	5

* Gadawodd Derek Jones Lywodraeth Cymru ar 3 Chwefror 2017.

** Ymunodd Shan Morgan â Llywodraeth Cymru ar 6 Chwefror 2017.

1.3 Mae Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Pwyllgor i'w gweld yn Atodiad A.

1.4 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y materion a ganlyn yn ystod y flwyddyn:-

- Goblygiadau'r Pontio o'r Undeb Ewropeaidd ar staffio'r SCS;
- Adroddiad y Bwrdd Adolygu Uwch-gyflogau a'i argymhellion ynghylch cyflogau'r SCS;
- Rheoli perfformiad yr SCS, gan gynnwys cymedroli;

- Ystyried anghysondebau mewn cyflogau o fewn bandiau cyflog yr SCS;
 - Enwebiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer anrhydeddau'r wladwriaeth;
 - Y prosesau recriwtio ar gyfer holl swyddi'r SCS a oedd naill ai wedi dod yn wag neu a oedd yn swyddi newydd, gan gynnwys cytuno a fyddai'r swyddi'n cael eu hysbysebu'n fewnol neu'n allanol, pennu'r amrediad cyflog, penderfynu a ddylid defnyddio gwasanaeth chwilio a threalu'r defnydd o Civil Service Executive Search, cytuno y dylai swyddi Dirprwy Gyfarwyddwyr, fel arfer, gael eu hysbysebu ar draws y Gwasanaeth Sifil yr un pryd ag yr hysbysebwr hwy'n fewnol;
 - Enwebiadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Potensial Uchel a'r Cynllun Uwch Arweinwyr;
 - Ailstrwythuro'r adran Cysylltiadau Rhyngwladol, Masnach a Mewnfuddsoddi;
 - Wedi ystyried strwythurau'r sefydliad yn fanwl, cymeradwywyd 15 proses recriwtio yn ystod y flwyddyn;
 - Ceisiadau gan aelodau'r SCS i ymadael yn wirfoddol: cymeradwywyd 4 cais.
- 1.5 Ymgynghorodd yr Ysgrifennydd Parhaol â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol sy'n aelodau o'r Pwyllgor wrth gynnal ei arfarniad blynyddol o'r Dirprwy Ysgrifenyddion Parhaol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd/Prif Weithredwr y GIG.
- 1.6 Cyfrannodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol at yr arfarniad blynyddol o'r Ysgrifennydd Parhaol gan Bennaeth Gwasanaeth Sifil y DU

2. Crynodeb y Cadeirydd

- 2.1 Prif ffocws y Pwyllgor o hyd yw cadw goruchwyliaeth ar y strategaeth gyflogau ar gyfer yr SCS, yn enwedig o ran defnyddio'r hyblygrwydd sy'n rhan o'r system.
- 2.2 Ein prif ffocws arall yw recriwtio a niferoedd yn yr SCS, gan gynnwys her o ran lleoliad swyddi.
- 2.3 Nodau'r Cadeirydd – mae fy nodau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys:
- cefnogaeth i'r Ysgrifennydd Parhaol newydd;
 - ymrwymiad i amrywiaeth - cefnogi targed o 50/50 erbyn 2020, dim rhestrau byr o ddynion yn unig os oes modd, pob manyleb swydd a

pherson yn yr SCS i gael eu rhannu â'r Pennaeth Cydraddoldeb cyn hysbysebu er mwyn sicrhau nad oes tuedd o blaid dynion yn yr iaith a ddefnyddir. Pob Lwfans Dyletswydd Dros Dro i'w hysbysebu'n agored;

- parhau i weithio i sicrhau ymwybyddiaeth ehangach o'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal cyfarfodydd o bryd i'w gilydd gyda Swyddog Cenedlaethol y First Division Association (FDA) ac yn bwriadu parhau i wneud hynny.

2.5 Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniad i'r holl faterion a drafodwyd a'r holl benderfyniadau a wnaethpwyd; am eu hystyriaethau gofalus a'u safbwyntiau cytbwys, sy'n ein helpu i sicrhau ein bod yn trin y materion a ddaw ger ein bron mewn modd sensitif, teg, cyson a chyflym i fodloni anghenion y sefydliad. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Derek am ei arweiniad a'i ymrwymiad, ac i groesawu Shan Morgan. Rwy'n edrych ymlaen at gydweithio â Shan yn ystod cyfnod a fydd yn un heriol a chyffrous. Hoffwn ddiolch hefyd i James Price am ei gyfraniad i'r Pwyllgor dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf a chroesawu ei olynydd Owen Evans, y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus. Rwy'n ddiolchgar hefyd i Peter Kennedy ac i Evelyn Edwards a'i thîm am eu gwaith yn cynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol.

3. Goblygiadau o ran adnoddau

3.1 Adroddiad diweddar yw hwn ac mae'r holl feysydd a materion a godir wedi'u cynnwys o fewn yr adnoddau ariannol a staffio sy'n bodoli.

4. Risgiau

4.1 Caiff unrhyw risgiau eu cofnodi a'u monitro'n briodol mewn cofrestr risgiau ar wahân.

5. Cyfathrebu

5.1 Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar y fewnwyd yn ogystal ag ar y rhyngwyd.

6. Materion Cydymffurfio Cyffredinol

6.1 Dim.

PWYLLGOR TALIADAU CYDNABYDDIAETH YR UWCH WASANAETH SIFIL

CYLCH GORCHWYL

1. Un o Is-bwyllgorau'r Bwrdd yw Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil. Cafodd ei sefydlu er mwyn:-
 - Penderfynu ar Strategaeth Gyflogau SCS Llywodraeth Cymru, a'i chyhoeddi.
 - Rhoi cyngor ffurfiol i Brif Weinidog Cymru i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau fel Gweinidog y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru.
 - Goruchwyllo'r broses asesu a chymedroli ar gyfer aelodau'r SCS.
 - Sicrhau bod y cynnydd cyfartalog ym mil cyflogau'r SCS o fewn y gyllideb y penderfynir arni'n ganolog.
 - Monitro'r canlyniadau o ran taliadau i sicrhau bod modd cyfiawnhau unrhyw wahaniaethau.
 - Sicrhau bod aelodau'r SCS yn yr haen isaf sydd angen cymorth ychwanegol i wella'u perfformiad yn cael eu cynorthwyo a'u datblygu'n briodol.
 - Sicrhau bod rheolwyr llinell yn cael adborth ar benderfyniadau terfynol am gyflogau fel y gallant esbonio wrth unigolion sut y cafodd y penderfyniadau eu gwneud.
 - Archwilio ansawdd tystiolaeth ac argymhellion rheolwyr trwy adolygu adroddiadau penodol yn achlysurol.
 - Adrodd ar y modd y mae'r cylch cyflogau'n gweithredu ac ar unrhyw wersi i'w dysgu at y dyfodol.
 - Penderfynu a ddylai cyflogau unigol godi, a faint y dylent godi, yn dilyn cynnydd yn y sgôr JESP (yn amodol ar ganllawiau Swyddfa'r Cabinet).
 - Cytuno, fesul achos, ar bennu cyflogau cychwynnol uwchlaw isafswm amrediadau cyflog yr SCS.
 - Cytuno ar y prosesau recriwtio ar gyfer holl swyddi'r SCS.

Aelodaeth

2. Aelodau'r Pwyllgor ar hyn o bryd yw:-
 - James Turner (Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd)

- Elan Closs Stephens (Cyfarwyddwr Anweithredol)
 - Adrian Webb (Cyfarwyddwr Anweithredol)
 - Ann Keane (Cyfarwyddwr Anweithredol)
 - Shan Morgan (Ysgrifennydd Parhaol)
 - Owen Evans (Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus)
 - Peter Kennedy (Cyngorydd)
 - Evelyn Edwards (Ysgrifenyddiaeth)
3. Mae'r Dirprwy Ysgrifenyddion Parhaol yn aelodau o'r Pwyllgor am gyfnod o ddwy flynedd, yn eu tro.